



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Addysg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)

Data Cyfrifiad 2021 ar lefel cymwysterau uchaf plant ysgol, myfyrwyr ac eraill mewn addysg amser llawn yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Ionawr 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Ionawr 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Plant ysgol a myfyrwyr amser llawn

Lefel y cymhwyster uchaf a gafwyd

Lefel y cymhwyster uchaf a gafwyd yn ôl awdurdod lleol

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cyflwyniad

Mae'r **Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cyhoeddi** Addysg yng Nghymru a Lloegr: Cyfrifiad 2022. Mae'r bwletin ystadegol hwn yn crynhoi'r data ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys amcangyfrifon o ganran y boblogaeth 16 oed ac yn hŷn sydd wedi cael cymwysterau academaidd, galwedigaethol, neu broffesiynol, yn ogystal â nifer y plant ysgol a myfyrwyr amser llawn.

Prif bwyntiau

- Roedd 588,000 o blant ysgol a myfyrwyr mewn addysg amser llawn (5 oed a throsodd) yng Nghymru ar ddiwrnod y cyfrifiad. Mae hyn yn cynrychioli 19.9% o'r preswylwyr arferol 5 oed a throsodd.
- Nododd 31.5% (807,000) o breswylwyr arferol 16 oed neu hŷn yng Nghymru fod eu cymhwyster uchaf ar lefel 4 neu uwch (er enghraifft Tystysgrif Genedlaethol Uwch, Diploma Cenedlaethol Uwch, gradd Baglor a chymwysterau ôl-raddedig).
- Nid oedd gan 19.9% (510,000) o breswylwyr arferol 16 oed neu hŷn yng Nghymru unrhyw gymwysterau tra bod 5.6% (143,000) wedi nodi prentisiaeth fel eu cymhwyster uchaf.

Plant ysgol a myfyrwyr amser llawn

Roedd 588,000 o blant ysgol a myfyrwyr mewn addysg amser llawn (5 oed a throsodd) yng Nghymru ar ddiwrnod y cyfrifiad. Mae hyn yn cynrychioli 19.9% o'r preswylwyr arferol 5 oed a throsodd. O'i gymharu â 2011, cynyddodd cyfanswm nifer y plant ysgol a myfyrwyr amser llawn yng Nghymru o 7,000. Fodd bynnag, fel cyfran o'r boblogaeth roedd gostyngiad bach o ffigur o 20.1% o breswylwyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

arferol 5 oed a throsodd yn 2011 (gostyngiad o 0.2 pwynt canran). Yn Lloegr roedd y gyfran yn 20.4% yn 2021, i lawr ychydig bach o 20.5% yn 2011.


Roedd canran y preswylwyr arferol 5 oed a throsodd a oedd yn blant ysgol neu'n fyfyrwyr mewn addysg amser llawn yn amrywio o 27.6% yng Nghaerdydd i 15.5% ym Mhowys. Roedd gostyngiad yn y gyfran yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol o'i gymharu â 2011, ond gwelwyd cynnydd mewn 5 awdurdod lleol. Roedd y cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd lle cynyddodd y gyfran 1.8 pwynt canran i 27.6%. Yng Ngheredigion y gwelwyd y gostyngiad mwyaf o gymharu â 2011, i lawr 3.8 pwynt canran i 22.5%.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ffigur 1: Canran y plant ysgol a myfyrwyr amser llawn (5 oed a throsodd) yn 2021, yn ôl awdurdod lleol



Mae'r siart bar yn dangos bod cyfran y plant ysgol a'r myfyrwyr amser llawn yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol o 27.6% yng Nghaerdydd i 15.5% ym Mhowys.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y cymhwyster uchaf a gafwyd

Gofynnwyd i breswylwyr arferol 16 oed neu throsodd yng Nghymru gofnodi unrhyw gymwysterau (gan gynnwys cymwysterau academaidd, galwedigaethol, a phroffesiynol) a gyflawnwyd ganddynt erioed yng Nghymru neu rywle arall, hyd yn oed os nad oeddent yn eu defnyddio nawr. Gellir defnyddio hyn i gyfrifo lefel y cymhwyster uchaf drwy ddefnyddio'r categorïau a ganlyn.

- Dim cymwysterau: Dim cymwysterau ffurfiol.
- Lefel 1: 1 i 4 TGAU (h.y. gradd A* i C neu radd 4 ac uwch) ac unrhyw TGAU eraill ar raddau eraill, Bagloriaeth Cymru Sylfaen, neu gymwysterau cyfatebol.
- Lefel 2: 5 TGAU neu fwy (h.y. gradd A* i C neu radd 4 ac uwch), Bagloriaeth Cymru Canolradd, neu gymwysterau cyfatebol.
- Prentisiaethau
- Lefel 3: 2 Safon Uwch neu fwy, Bagloriaeth Cymru Uwch, neu gymwysterau cyfatebol.
- Lefel 4 neu uwch: Tystysgrif Cenedlaethol Uwch, Diploma Cenedlaethol Uwch, gradd Baglor, neu gymwysterau ôl-raddedig
- Cymwysterau eraill, o lefel anhysbys.

O'r cyfanswm o 2.6 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru, nododd 807,000 (31.5%) fod eu cymhwyster uchaf ar lefel 4 neu uwch. Nid oedd gan 19.9% (510,000) unrhyw gymwysterau. Nododd 17.2% (441,000) fod eu cymhwyster uchaf ar lefel 3, nododd 14.4% (367,000) fod eu cymhwyster uchaf ar lefel 2 a nododd 8.7% (223,000) fod eu cymhwyster uchaf ar lefel 1.

Prentisiaethau oedd cymhwyster uchaf 5.6% (143,000) o'r preswylwyr arferol 16 oed ac yn hŷn. Roedd cymwysterau eraill yn cyfrif am y 2.7% sy'n weddill (69,000).

Nododd cyfran uwch o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn Lloegr fod eu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cymhwyster uchaf ar lefel 4 neu uwch (33.9%, 15.6 miliwn) o gymharu â Chymru (31.5%, 807,000). Nododd cyfran uwch nad oed ganddynt unrhyw gymwysterau yng Nghymru (19.9%, 510,000) nag yn Lloegr (18.1%, 8.3 miliwn).

Er bod modd cymharu lefel y cymhwyster uchaf yn fras rhwng 2011 a 2021, ceir cafeatau. Mae'r categorïau wedi aros yr un fath ag yr oeddent yn 2011 ac wedi'u pennu yn yr un modd. Fodd bynnag, mae'r ffordd y strwythurwyd y cwestiynau wedi newid yn sylweddol ers 2011. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr wybodaeth a [gyhoeddwyd gan yr ONS ar ddatblygu'r cwestiwn am gymwysterau ar gyfer Cyfrifiad 2021](#). Mae'r newidiadau hyn i'r fethodoleg gasglu yn golygu y bydd cyfran resymol o'r ymatebwyr wedi nodi lefel wahanol o gymhwyster nag y gwnaethant yn 2011, er eu bod yn dal i fod â'r un cymwysterau. Felly, bydd unrhyw newid yn lefelau cymwysterau o'i gymharu â 2011 yn rhannol o ganlyniad i'r newidiadau i'r fethodoleg ac yn rhannol yn arwydd o newid gwirioneddol. O'r herwydd, dylid dehongli newidiadau yn ofalus a dylai defnyddwyr osgoi dod i gasgliadau arnynt neu eu defnyddio i lywio prosesau cynllunio neu werthuso polisiau. Mae data 2011 wedi'i gynnwys yn ffigyrau 2, 3 a 4 at ddibenion cyfeirio yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau rheolaidd am [lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio](#) yng Nghymru, sy'n deillio o'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth. Nid oes modd cymharu'r ystadegau hyn yn uniongyrchol â'r rhai a gyflwynir yn y bwletin hwn ond maent yn golygu bod modd gwneud cymariaethau dros amser.


Er bod materion cymharu rhwng data Cyfrifiad 2011 a 2021, mae'r duedd gyffredinol o gynnydd yn lefelau cymwysterau, a gostyngiad cyfatebol mewn unigolion sy'n dal dim cymwysterau, hefyd yn cael ei weld yn yr ystadegau sy'n deillio o'r Arolwg Poblogaeth Blynnyddol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ffigur 2: Lefel y cymhwyster uchaf a gafwyd, 2011 a 2021



Mae'r siart bar yn dangos yr ymateb mwyaf cyffredin yn 2021 oedd cymhwyster Lefel 4 ac uwch, ac yna dim cymwysterau.

Lefel y cymhwyster uchaf a gafwyd yn ôl awdurdod lleol

Cymwysterau Lefel 4 neu uwch

Yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a nododd fod eu cymhwyster uchaf ar lefel 4 neu uwch oedd Caerdydd (40.0%) a Sir Fynwy (39.4%). Yr


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

awdurdodau lleol â'r gyfran isaf oedd Blaenau Gwent (21.6%) a Merthyr Tudful (25.0%).

Ffigur 3: Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yr oedd eu cymhwyster uchaf ar lefel 4 neu uwch, yn ôl awdurdod lleol, 2011 a 2021



Mae cyfran yr ymatebwyr â chymhwyster lefel 4 ac uwch yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.


Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Dim cymwysterau

Yr awdurdodau lleol â'r gyfran fwyaf o breswylwyr heb unrhyw gymwysterau oedd Blaenau Gwent (27.9%) a Merthyr Tudful (26.9%). Ceredigion (14.7%) a Bro Morgannwg (15.6%) oedd â'r gyfran isaf o ymatebwyr â dim cymwysterau.

Ffigur 4: Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd sydd heb unrhyw gymwysterau, yn ôl awdurdod lleol, 2011 a 2021



Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae cyfran yr ymatebwyr heb gymwysterau yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol.

Prentisiaethau

Yn Sir y Fflint ac Ynys Môn (6.6% ar gyfer y naill a'r llall) oedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr a nododd mai prentisiaeth oedd lefel eu cymhwyster uchaf. Roedd y gyfran isaf yng Nghaerdydd (3.9%), ac wedyn Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy a Chasnewydd (5.1% i gyd).

Sgôr mynegai cymwysterau


Mae'r sgôr mynegai ar gyfer lefel y cymhwyster uchaf yn fesur cryno y gellir ei ddefnyddio i gymharu pa mor gymwysedig yw grwpiau o'r boblogaeth. Mae'n rhoi gwerth i bob unigolyn 16 oed a throsodd yn seiliedig ar lefel eu cymhwyster uchaf, ac eithrio'r rhai nad oedd lefel eu cymhwyster uchaf yn hysbys. Y sgôr mynegai wedyn yw gwerth cyfartalog pob unigolyn yn yr ardal ddethol, gyda sgôr uwch yn arwydd o boblogaeth â chymwysterau uwch. Dylid defnyddio'r sgôr mynegai cymwysterau ochr yn ochr â chanran y bobl yn yr ardal a nododd bob un o'r gwahanol gategorïau o gymwysterau uchaf er mwyn cael y darlun llawn. Mae **bwletin ystadegol yr SYG Addysg yng Nghymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021** yn cynnwys esboniad mwy llawn o sut y cyfrifir y sgôr mynegai cymwysterau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ffigur 5: Sgôr mynegai cymwysterau, yn ôl awdurdod lleol, 2021



Mae'r map yn dangos amrywiaeth yn y sgôr mynegai cymwysterau. Gwelir sgoriau uwch yn rhai ardaloedd o'r de-ddwyrain a'r gorllewin, gyda sgoriau is yn ardal cymoedd y de.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Am wybodaeth ansawdd a methodoleg lawn ewch i [adroddiad gwybodaeth ansawdd a methodoleg yr SYG](#).

Bydd data a dadansoddiad mwy manwl o addysg yn cael ei gyhoeddi gan yr ONS yn y misoedd nesaf, ochr yn ochr â rhyddhau data amlamryweb. Bydd hyn yn galluogi dadansoddi newidynnau addysg yn ôl newidynnau eraill y cyfrifiad, megis oedran, rhyw a'r farchnad lafur. Darllenwch fwy am [gynlluniau dadansoddi addysg yr SYG](#) a'i [gynlluniau rhyddhau ar gyfer Cyfrifiad 2021 \(y Swyddfa Ystadegau Gwladol\)](#) yn fwy cyffredinol.

Mae'r Cyfrifiad yn cyfrif myfyrwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor. Roedd peth tystiolaeth o newidiadau i'r boblogaeth yn ystod y tymor yn deillio o'r pandemig coronafeirws. [Darllenwch fwy am sut y sicrhodd yr SYG amcangyfrif cywir o fyfyrwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor](#).

Talgrynnu

Mae'r ffigurau a ddyfynnwyd yn y bwletin hwn wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf. Dyfynnir canrannau a newidiadau pwynt canran i un lle degol ac fe'u cyfrifir ar sail ffigurau heb eu talgrynnu.

Cymariaethau â data Cyfrifiad 2011

Cyhoeddwyd data Cyfrifiad 2011 ar blant ysgol a myfyrwyr amser llawn ar sail y rhai sy'n 4 oed a throsodd. Lle gwnaed cymariaethau gyda 2011 yn y bwletin hwn, mae ffigurau 2011 wedi'u hailgyfrif ar sail y rhai 5 oed a throsodd.

Mae problemau o ran cymharu data ar lefel y cymwysterau uchaf rhwng Cyfrifiad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

2021 a Chyfrifiad 2011. Caiff y rhain eu hesbonio yn yr adran sy'n cyflwyno ystadegau ar [lefel y cymhwyster uchaf a gafwyd](#).

Cymharu â ffynonellau data eraill

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ystadegau rheolaidd am [lefelau'r cymhwyster uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio](#) yng Nghymru, sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Nid oes modd cymharu'r ystadegau hynny'n uniongyrchol â'r rhai a gyflwynir yn y bwletin hwn. Yn ogystal â'r dulliau gwahanol o gasglu data, mae ystadegau rheolaidd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar oedolion o oedran gweithio (18 i 64 oed) tra bod y rhai a gyflwynir yma wedi'u seilio ar bob preswlydd arferol 16 oed a hŷn.

Mae'r dangosydd cenedlaethol, a'r cerrig milltir cenedlaethol cysylltiedig, sy'n seiliedig ar lefelau cymwysterau yn deillio o ystadegau rheolaidd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae mwy o wybodaeth am y dangosydd a'r cerrig milltir cenedlaethol yn yr adran ar [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, gan ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2022 yn dilyn [asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau](#).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru. Diben y rhain yw sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran 10(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae rhaid eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Ceir dangosydd cenedlaethol sy'n seiliedig ar lefelau cymwysterau, sef:

- (8) Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Mae dwy garreg filltir genedlaethol sy'n gysylltiedig â'r dangosydd hwn:

- bydd gan 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau ar lefel 3 neu uwch erbyn 2050
- bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050

Mae'r ddau yma n cael eu mesur gan ddefnyddio ystadegau rheolaidd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar oedolion oedran gweithio (rhwng 18 a 64 oed). Ni ddylid defnyddio'r ystadegau ar lefelau cymwysterau uchaf a gyflwynir yn y bwletin hwn (ar sail preswylwyr arferol 16 oed a throsodd) i fesur cynnydd yn erbyn y dangosydd cenedlaethol na'r cerrig milltir cenedlaethol.

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn hefyd ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Manylion cyswllt

Ystadegydd: Jonathan Ackland

E-bost: ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

Cyfryngau: 0300 025 8099



SB 3/2023

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).